

## **Cyngor Cymuned Llanelian (258)**

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Hydref 14, 2014 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol:	Dafydd Griffiths Helen Hughes John Griffiths	Thomas D Jones Hefina Williams Cyng. Richard Jones	T Elfyn Hughes David Gerrard Cyng. Aled Morris Jones
------------	--	--	--

Ymddiheuriadau:      Glenys Jones                      Gordon Hayes

### **1      Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths a chroesawyd pawb i'r cyfarfod**

### **2      Datgan Diddordeb**

Cais Cymdeithas y Leinws am arian - TD Jones a Hefina Williams

### **3      Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig TD Jones, Eilio Helen Hughes.

### **4      Materion yn Codi**

4.1      Materion Parcio – nid oedd unrhyw wybodaeth ychwanegol wedi dod i law.

4.2      Cae Chwarae – mae'r cwyno ar Facebook wedi distewi ar hyn o bryd.

4.3      Mynwent –

- Cafwyd llythyr gan Mrs Mair Morris yn dychwelyd y siec am £650.
- Cafwyd copi o lythyr wedi ei anfon at D Jump yn y Cyngor Sir gan y cyn-glerc G Roberts yn datgan ei siom am y sefyllfa yn ymwneud a'r giât. Cafwyd hefyd gopi o ymateb y swyddog.
- Deallwyd bod grant o hyd at 50% ar gael gan CADW ar yr amod nad oedd y 'match funding' yn arian cyhoeddus. Cytunwyd y byddai defnyddio arian Cronfa Tŷ Moel tuag at gostau'r giât a gofyn am gyfraniadau eraill e.e. gan yr Eglwys. Os bydd angen, bydd posib i'r Cyngor dalu peth arian tuag at gostau'r llwybrau.
- Gofynnwyd i'r Clerc barhau a'r ymholiadau am grantiau, a gweld os yw'n bosib i rywun o CADW ddod i drafod y prosiect a'r cais am arian. Bydd hefyd angen trafod a'r Eglwys i weld os oes modd cefnogi cais y Cyngor am giat newydd, a hefyd os oes posibilrwydd am unrhyw gyfraniadau tuag ato.
- Cafwyd ail bris am wneud y llwybrau yn y fynwent ac am symud y porth i'r pen pellaf. Rhoddwyd rhyddid i'r Is-bwyllgor benodi contractwr a dechrau ar y gwaith.

4.4      Polisiâu'r Cyngor - gobeithio gallu cyflwyno dogfennau drafft i'r holl aelodau erbyn y cyfarfod nesaf.

4.5      Cae Chwarae - Bydd Partneriaeth Llwyfo yn cyfarfod yn fuan er mwyn trafod dyfodol y cae chwarae ym mhen pellaf y pentref, bydd wedyn angen cyfarfod gyda'r Cyngor i drafod opsiynau posib. Gobeithio gallu adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

Gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau ynglŷn â phwy sydd wedi bod yn gyfrifol am wneud y gwaith cynnal a chadw yng nghae chwarae Lon Tyddyn Waen er mwyn trefnu bod gwaith yn cael ei wneud mewn ymateb i'r manion wedi eu nodi yn yr adroddiad yn dilyn yr archwiliad.

Bydd angen trefnu cyfarfod yr is-bwyllgor unwaith bydd gwybodaeth gan Bartneriaeth Llwyfo a'r gwaith cynnal a chadw.

### **5      Cynllunio**

Nid oedd ceisiadau i'w trafod.

Cafwyd wybod am benderfyniad y Cyngor Sir i ganiatáu cais Bryn y Môr.

### **6      Materion Ariannol**

- 6.1      Taliadau – cymeradwywyd y taliadau canlynol -  
Mair Morris £650 (*mae'r siec wedi ei ddychwelyd wedi ei dorri*)  
Neuadd Bentref £600 (cyfraniad blynyddol)  
Yr Arwydd £75 (cyfraniad blynyddol)  
Carli Evans-Thau £221.52 (costau Gorffennaf – Medi)  
Carli Evans-Thau £929.44 (cyflog Gorffennaf – Medi)  
HMRC £36.33 (PAYE hyd 5/10/14)  
Anglesey Computer Solutions £520 (Gwefan)

Fe ddiolchodd T Elfyn Hughes ar ran y Neuadd Bentref am eu cyfraniad blynyddol gan nodi eu bod yn gwerthfawrogi cefnogaeth y Cyngor pob blwyddyn.

- 6.2 Cyfrifon 2014/15 – roedd copi o'r cyfrifon am y chwe mis cyntaf o'r flwyddyn ariannol ar gael i'r rheini oedd am eu gweld.
- 6.3 Ceisiadau am arian – Cafwyd dau gais i'w trafod.
- Shelter Cymru – cytuno peidio cyfrannu ac ysgrifennu i esbonio bod y Cyngor yn cefnogi mudiadau bychain yn y Gymuned e.e. yr Ysgol, Cylch Meithrin ac ati.
  - Cymdeithas Lenyddol y Leinws - mae'r Gymdeithas wedi cael cyfraniad o £50 yn Nhachwedd 2013. Gan fod cyn lleied o arian ar gael i'w ddsbarthu ar hyn o bryd, fe gytunwyd ysgrifennu atynt a datgan bydd yr aelodau yn edrych ar y sefyllfa eto ac yn ail ystyried y cais ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cynigwyd gan T Elfyn Hughes, eilio gan David Gerrard. Helen Hughes yn atal ei phleidlais a phawb arall yn gefnogol.

## **7 Gohebiaeth**

- 7.1 Holiadur gan Gyngor Môn yn gofyn am wybodaeth am unigolion sy'n cysgu allan.
- 7.2 Llythyr yn cadarnhau bydd cyfarfod blynyddol y Fforwm Gynllunio yn cymryd lle 13/11/2014 yn Llangefni
- 7.3 Gwybodaeth am Gronfa Budd Cymunedol Airvolution. Mae'r dyddiad cau 20/10/14. Nodwyd bod Penysarn yn anffodus y tu allan i'r ardal ddewisedig
- 7.4 Mae Horizon wedi dechrau eu hymgyngoriad ar y cynlluniau ar gyfer Wylfa Newydd
- 7.5 Mae seminar ar gyfer datblygu'r cynllun datblygu ar y cyd wedi ei drefnu yn Llangefni ar y 7fed o Dachwedd.

## **9 Unrhyw Fater Arall**

- 9.1 Llwybrau cyhoeddus - nodwyd bod weiren bigog wedi ei osod ar draws llwybr ger Castell. Mae'r arwydd ger y Neuadd Bentref wedi torri ac angen ei ail osod. Bydd y Clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir i godi ymwybyddiaeth.
- 9.2 Golau y tu allan i'r Neuadd - ers newid y goleuadau ar y stryd, mae yn dywyll iawn ac yn beryglus wrth ddod allan o'r neuadd wedi iddi nosi. Gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau am y posibilrwydd o gael golau ar y lon y tu allan.
- 9.3 Hysbysfwrdd – nodwyd bod yr hysbysfwrdd ger y post wedi ei symud. Cadarnhawyd nad y cyngor oedd yn gyfrifol ohono.

## **10 Dyddiad y Cyfarfodydd Nesaf – 11/11/2014, 9/12/14**

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 7.40 o'r gloch.